

Adran Amgylchedd Environment Department

Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Planning and Public Protection Service
Uwch Reolwr/Senior Manager – Gareth Jones



Gofynnwch am/Ask for: Cara Owen
☎(01766) 771000

Ein Cyf / Our Ref: 20010958
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

✉ garethjones3@gwynedd.llyw.cymru

09.11.18

Yr Arolygiaeth Gynllunio / The Planning Inspectorate
Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol / National Infrastructure Planning

Annwyl Syr / Fadam

Dear Sir / Madam,


**Parthed: Cais DCO ar gyfer gorsaf niwclear
Wylfa Newydd**
**Pwyntiau gweithredu a gododd o'r
gwrandawriad ynglŷn a'r DCO drafft a
gynhaliwyd dydd Mawrth 24 Hydref 2018**

**Reference: DCO application for Wylfa Newydd
Power Station**
**Action points raised from the draft DCO
hearing held on Tuesday 24 October 2018**

Cyfeiriaf at y pwyntiau gweithredu yn sgil yr uchod
ac yn benodol cam gweithredu 20 ac atodir ymateb
ar ran Cyngor Gwynedd

I refer to the action points in respect of the above
and specifically action point 20 and enclose the
response on behalf of Gwynedd Council.

Yn gywir / Yours sincerely,



Gareth Jones

Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd/
Senior Manager, Planning and Public Protection Service

Swyddfa'r Cyngor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd, LL53 5AA
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

NODYN ÔL-WRANDAWIAD CYNGOR GWYNEDD (13 TACHWEDD 2018)

Pwynt Gweithredu 20:

CSYM, Cyngor Gwynedd, HGC a LIC i gynnwys pryderon ynghylch: adran 106 mewn nodyn ôl-wrandawriad ar wahân; a, lefel y manylder yn y Cod Arferion Adeiladu

A106:

Dim ond cipolwg a gafodd Cyngor Gwynedd (CG) ar Benawdau'r Telerau (HoTs) A106 a nodir yn nogfen 8.1 Datganiad Cynllunio (paragraffau 7.4.8 i 7.4.86). O fewn yr HoTs hyn, cyfeirir at Gyngor Gwynedd ar un achlysur yn unig, o dan yr iaith Gymraeg. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod rhan sylweddol o Wynedd wedi'i lleoli o fewn yr Ardal Astudiaeth Allweddol sydd wedi'i diffinio gan Horizon. Er bod Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod mwyafrif yr effeithiau yn debygol o gael eu gweld ar Ynys Môn, mae'r prosiect yn digwydd ar y fath raddfa nes y rhagwelir y bydd effeithiau yn ardal CG, ac felly, bydd angen mesurau lliniaru yn yr ardal honno hefyd. O ganlyniad, byddai Cyngor Gwynedd yn dymuno gweld mecanwaith o fewn yr A106 sy'n caniatáu iddo fod yn rhan o'r meysydd a ganlyn, yn ogystal â'r maes iaith Gymraeg:

- Llety - Nid oes llawer o fanylder yn yr HoTs ynghylch yr hyn fydd wedi'i gynnwys yn yr A106, yn wahanol i rai o'r pynciau eraill. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at sefydliadau a fyddai'n rhan o'r gronfa ac nid oes unrhyw gyfeiriad at sefydlu fframwaith cytûn ar gyfer monitro.
- Yr Effaith Gymunedol - Mae'r HoTs yn cyfeirio at bwyllgor rheoli sy'n cynnwys HNP, CSYM, LIC a'r gwasanaethau brys. Byddai CG yn dymuno bod ar y pwyllgor hwn hefyd.
- Iechyd a Llesiant - Cyfeirir at is-grŵp ac mae'r goblygiadau a nodir ymhellach ymlaen yn awgrymu y byddai hwn yn cynnwys cyrff iechyd a'r gwasanaethau brys. Byddai Cyngor Gwynedd (a CSYM yn ddi-os) yn dymuno cael ei gynrychioli ar y grŵp hwn, o ystyried ein cyfrifoldebau dan lesiant a iechyd cymunedol yn ehangach. Yn ogystal, mae'r testun yn cyfeirio at bwysau ar y farchnad dai a byddai hyn yn bryder i'r Cyngor.
- Addysg a sgiliau - Gwneir cyfeiriad penodol at CSYM a sefydliadau eraill o ran anghenion llafur yn y sector iechyd. Mae CG yn rhedeg 13 o gartrefi gofal preswyl ac mae ganddo gyfrifoldebau gofal cymdeithasol. Dymuna'r Cyngor fod yn rhan o hyn.
- Twristiaeth - Nid yw'r HoTs yn cyfeirio at unrhyw sefydliadau ac fe allai elwa o gyfeirio at y ffaith bod cyllid ar gael ar draws yr Ardal Astudiaeth Allweddol.
- Siarter Cadwyn Gyflenwi - Cyfeirir at CSYM, Llywodraeth Cymru, BUEGC a Menter Newydd. Dymuna CG fod yn rhan o hyn.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth a graddfa'r cyfraniadau - byddai Cyngor Gwynedd hefyd yn dymuno medru gwneud cais am gyllid, yn enwedig o ran monitro ac ar gyfer amser swyddogion a dreulir ar faterion sy'n ymwneud â'r uchod.

I grynhoi, byddai Penawdau'r Telerau ar gyfer yr A106 yn elwa o sylw trosfwaol y byddai'r mesurau, sydd wedi'u cynnwys yn y goblygiadau, yn dilyn yr effeithiau ac mewn egwyddor, ar gael drwy'r Ardal Astudiaeth Allweddol gyfan. Fel ag y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid oes prin gyfeiriad at Wynedd, er bod y sir yn ffurfio elfen sylweddol o ardal yr astudiaeth. Bydd y Cyngor yn aros yn eiddgar i weld y cytundeb A106 drafft yn nherfyn amser 3.

Y Cod Arferion Adeiladu:

Mae'r Cyngor o'r farn nad yw Cod Arferion Adeiladu (CoCP) y prosiect cyfan, ynghyd â'r is-CoCP, yn rhoi gwybodaeth a mecanweithiau rheoli digonol. Ar hyn o bryd, ni all fod yn hyderus bod modd rheoli effeithiau'r adeiladu yn ddigonol. Mae Cod y prosiect cyfan yn ymdrin ag amrediad eang o bynciau; lle byddai llawer ohonynt yn aml yn ffurfio eu cynlluniau rheoli eu hunain fel rhan o gais TCPA (megis

Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu). Wrth gyfeirio'n benodol at Wunedd, mae pryder y Cyngor yn canolbwyntio ar y diffyg manylder penodol a'r diffyg ymrwymiad a ddangoswyd at reoli traffig adeiladu.

Nodir mai diben y ddogfen 8.6 Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd yn ei Chrynodeb Gweithredol, yw:

Mae CoCP Wylfa Newydd, ynghyd ag is-CoCPs penodol i leoliadau, yn nodi sut y caiff gweithgareddau adeiladu eu rheoli er mwyn cyflawni'r ymrwymadau lliniaru sy'n codi o'r prosiect.

Felly, mae'r Ymgeisydd yn ei disgrifio fel y ddogfen reoli/dogfennau rheoli ar gyfer adeiladu'r prosiect. Disgrifir rheoli traffig adeiladu ar bedair tudalen (tudalennau 34-37).

Mae'r Cyngor o'r farn nad oes digon o fanylder yn y CoCP i'w fodloni y bydd y mesurau lliniaru a ddefnyddir yn ddigonol. Gan gymryd yr enghraifft o fysus gwennol (tudalen 35) nid oes manylder ynghylch nifer y bysus, amserau, hyd, dyddiad cychwyn, lleoliad y manau casglu ac ati. Mae diffyg manylder hefyd yng nghyswllt lleoliad arwyddion, y protocol ar gyfer arosfannau bysus newydd neu rai sy'n cael eu hail-leoli, targedau y gellir eu gorfodi ar gyfer rhannu ceir, manylion y 'dulliau priodol i'w defnyddio i hyrwyddo rhannu ceir' ac ati. Rhaid darparu sylwadau manwl a phenodol i CG, CSYM a LIC fel bod modd i'r holl awdurdodau priffyrdd yn yr Ardal Astudiaeth Allweddol fod yn sicr bod y mesurau lliniaru a gynigir gan yr Ymgeisydd yn ddigonol i atal effeithiau ar y briffordd.

Byddai CG yn gofyn i Ofyniad DCO PW7 a'r CoCPs penodol y cyfeirir atynt gael eu diwygio fel y gellir cyflwyno CoCP prosiect cyfan terfynol, manwl, i CSYM, er cytundeb CSYM mewn ymgynghoriad â LIC a CG cyn cychwyn y datblygiad.

Yn yr un modd â'r CoCP prosiect cyfan, mae diffyg manylder digonol yn yr is-CoCP hefyd. O ran traffig adeiladu, mae'r Is-CoCP ar gyfer y Prif Safle (8.7) yn ymdrin â materion rheoli ar un dudalen, ac nid oes unrhyw wybodaeth yn yr Is-CoCP Logisteg (8.11) am y modd y rheolir cerbydau HGV sy'n gadael y Prif Safle, na manylion am y mesurau sydd i'w rhoi yn eu lle ar adegau megis pan fo Pont Britannia ar gau. Yn yr un modd, ychydig iawn o wybodaeth sydd yn yr Is-CoCP Parcio a Theithio (8.10) ar y defnydd o fysus gwennol nac ar sut y rheolir traffig yn y cyfleuster pe byddai'r galw'n fwy na'r cyflenwad. O ganlyniad, mae gofyn addasu'r gofynion DCO sy'n ymwneud â phob is-CoCP i fod yn gyson â'r argymhelliad ar gyfer PW7 uchod.

GWYNEDD COUNCIL POST HEARING NOTE (13 NOVEMBER 2018)

Action point 20:

IACC, Gwynedd Council, NWP and WG to include concerns regarding: section 106 in a separate post-hearing note; and, level of detail within the Code of Construction Practices

S106:

Gwynedd Council (GC) has only had sight of the S106 Heads of Terms (HoTs) which are set out within document 8.1 Planning Statement (paragraphs 7.4.8 to 7.4.86). Within these HoTs, Gwynedd Council is mentioned once, under the topic of Welsh Language. This is despite a substantial part of Gwynedd lying with the Key Study Area as defined by Horizon. Whilst Gwynedd Council recognises that the majority of impacts are likely to be experienced on Anglesey the scale of the project is such that it anticipates impacts and hence mitigations will also be required within its Council area. Gwynedd Council would therefore wish to see a mechanism within the S106 that allows for its involvement in the following areas, in addition to the Welsh Language:

- Accommodation – The HoTs provide little detail on what will be included within the S106, in contrast to some of the other topics. The section makes no reference to any of the organisations that would be party to the housing fund and makes no reference to the establishment of an agreed framework for monitoring.
- Community Impact – The HoTs reference a management committee consisting of HNP, IACC, WG and the emergency services. GC would also wish to be party.
- Health and wellbeing – Reference is made to a sub-group and the implications made further on suggest this would include health bodies and emergency services. Gwynedd (and no doubt IACC) would wish to be represented on this group given our responsibilities under wellbeing and wider community health. The text also refers to housing market pressures which would be of concern to the Council.
- Education and skills – Specific reference is made to IACC and to other organisations with regard to labour churn in the health sector. GC operates 13 residential care homes and has social care responsibilities. It would wish to be party to this.
- Tourism – The HoTs do not mention any organisations and may therefore benefit from a reference to funding being available across the KSA.
- Supply Chain Charter – Reference is made to IACC, Welsh Government, NWEAB and Menter Newydd. GC would wish to be included.
- Service Level Agreement and scale of contributions – Gwynedd would also wish to be able to call upon funding, particularly with regard to monitoring and for officer time spent in relation to the above.

In conclusion, the Heads of Terms to the S106 would benefit from an over-arching comment that the measures contained within the obligations would follow the impacts and in principle, be available throughout the KSA. As currently drafted, there is almost no reference to Gwynedd despite it forming a significant element of the study area. The Council will await sight of the draft S106 agreement at deadline 3.

Code of Construction Practices:

The Council is of the opinion that the project-wide CoCP as well as the sub-CoCPs provide insufficient information and controlling mechanisms to provide it with the confidence that construction effects can be controlled adequately. The project-wide Code includes for a wide range of topics, many of which would often form their own specific management plans as part of a TCPA application (for example a Construction Traffic Management Plan). With specific relevance to Gwynedd, the Council's concern

focuses upon the lack of specific detail and commitment provided for the management of construction traffic.

The purpose of the document 8.6 Wylfa Newydd Code of Construction Practice is set out in its Executive Summary as:

The Wylfa Newydd CoCP, together with location-specific sub-CoCPs, sets out how construction activities will be managed and controlled in order to deliver the mitigation commitments arising from the project

The Applicant therefore describes the document(s) as the controlling document(s) for the construction of the project. The management of construction traffic for the entire project is dealt with in four pages, (pages 34-37).

In the opinion of the Council the project-wide CoCP lacks sufficient detail to satisfy it that the assumed mitigations will be sufficient. Taking the example of shuttle buses (page 35) there is no detail on the number of buses, their timings, duration, date of introduction or location of pick-up points for example. A similar lack of detail can be found with regard to the location of signage, the protocol for replacement/relocated bus stops, enforceable targets for car sharing, details of the 'appropriate methods to be used to promote car sharing' etc. Detailed, specific commitments must be provided to GC, IACC and WG such that all highway authorities within the KSA can be assured that the mitigations proposed by Applicant will be sufficient to prevent impacts upon the highway.

GC would ask that DCO Requirement PW7 and the specific CoCPs referenced are amended such that a final, detailed project-wide CoCP is submitted to and agreed by IACC in consultation with WG and GC prior to commencement of development.

Consistent with the project-wide CoCP, the sub CoCPs also lack sufficient detail. Considering the matter of construction traffic, the Main Site Sub-CoCP (8.7) addresses issues of management in a single page whilst the Logistic Sub-CoCP (8.11) contains no information on how HGVs leaving the Main Site will be managed, or the measures to be put in place at times when the Britannia Bridge is closed for example. Similarly, the Park and Ride Sub CoCP (8.10) provides very little information on the use of shuttle buses or on how parking will be controlled at the facility should demand exceed supply. The DCO requirements pertaining to each sub-CoCP therefore require amending consistent with the recommendation for PW7 above.